Gair gan y Llywydd
President's Message

Rwy'n gobeithio fod holl Aelodau y Gymdeithas yn cadw'n iach a phawb wedi cael tymor ŵyna llwyddiannus. Mae'r pandemig Cofid-19 wedi parhau yn hwy na'r disgwyl ac nid ydym eto allan o'r penbleth. Mae amrywiadau newydd o'r feirws yn parhau i ddod i'r golwg i beri pryder. Mae'r rheolau yn llacio ar hyn o bryd gan bod llawer ohonom wedi derbyn y brechlyn, ond mae'r ffordd yn ôl at yr arferol yn hir, hyd yn oed heb unrhyw anffawd annisgwyl.

Er gwaethaf popeth mae bywyd ar y fferm yn parhau fel sydd raid. Fel y mae bob amser, mae heriau newydd i'w goresgyn. Mae'r Llywodraeth yn newid ei ddull o gefnogi amaethyddiaeth i'r dyfodol. Yr awgrym yw bydd cefnogaeth i'w gael yn ôl cyflenwad "lles cymdeithasol" a, credwch neu beidio, erbyn hyn nid yw cynhyrchu bwyd da iachusol yn cael ei gyfrif fel lles cymdeithasol o bwys. Mae cydymffurfio â rheolau a chanllawiau newydd yn aml yn anodd ac weithiau yn gostus dros ben. Mae Brexit hefyd, wedi creu anawsterau gyda'i holl mân reolau. Ar ben hyn oll, mae cytundebau newydd y Llywodraeth gyda gwledydd eraill sy'n cynhyrchu cig, yn ennyn pryderon y byddant yn tanseilio ein marchnadoedd.

Gallwn fod yn falch iawn o'r Cig Oen Cymreig rydym yn ei gynhyrchu ac fe ddylem ei hyrwyddo gyda hyder ar bob cyfle. Mae cig oen yn gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at bwyta'n iach. Darllenais yn ddiweddar bod oen, wedi ei gynhyrchu ar laswellt, yn cynnwys lefelau uwch o asidiau amino hanfodol, sy'n sylfaen protein, ac ar gael yn unig o'r hyn a fwyteir – tystiolaeth pellach, pe tau angen, bod ein cynnyrch yn wych. Dylai bridiau sy'n ffynnu ar borfa mynyddig heb dim, neu ond ychydig, o ddwysfwydydd costus gael eu cydnabod yn well.

Diolch yn fawr am yr anrhydedd o fod yn Llywydd y Gymdeithas. Unwaith eto hoffwn ddiolch i holl swyddogion y Gymdeithas, yn enwedig yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd, am eu gwaith ardderchog gydol y flwyddyn. Ac nawr, daliwn ati gyda'r gwaith da, gwerthfawrogwn ein ffermydd lle rydym mor ffodus cael byw, a gofalwn am ein Defaid Mynydd Cymreig Pedigri. Gwarchodwn cefngwlad Cymru brydferth, ac edrychwn ymlaen at arwerthiant llwyddiannus pan ddaw Mis Medi!

I hope all Society Members are well and have had a successful lambing season. The Covid-19 pandemic has continued far longer than anticipated, and we are still not out of the woods. New variants of the virus are cropping up and causing great concern. However, at the moment, Corona Virus regulations are being eased as more and more of us get vaccinated, but there is a long way to go before we return to normality even without further unexpected setbacks.

In spite of everything farming life continues as it must. As always, there are new challenges to overcome. The Government is changing the way it will provide agricultural support in the future. It is proposed that support be available according to the "public goods" a farm business supplies and, believe it or not, producing good wholesome food is no longer considered a significant public good. Compliance with new rules and regulations is often difficult and can be very expensive. Brexit has also created problems by disrupting trade with a mass of red tape. Yet further concern has been engendered by the fear that new Government deals with other meat producing countries will undermine our markets.

I think we can be very proud of the Welsh Mountain Lamb we produce and it should be promoted with confidence at every opportunity. Lamb makes a valuable contribution to a healthy diet. I read quite recently that lamb produced from grass contains enhanced levels of essential amino acids, the building blocks of protein, and can only be obtained through diet – further evidence, were it needed, that we have an excellent product. Breeds that thrive on mountain grazing with little or no expensive concentrates deserve greater recognition.

Thank you for the great privilege of being President of the Society. Once again, I wish to thank all the Society officials, especially our Secretary and Treasurer, for their excellent work throughout the year. And now, let's keep up the good work, look after the farms we are so fortunate to occupy, and take care of our Pedigree Welsh Mountain Sheep. Let's enjoy living and working in the beautiful Welsh countryside and look forward to a successful sale of breeding stock in September!

Mr D Wyn Davies